Cofnodion cyfarfod y **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** a gynhaliwyd yn **Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, nos Lun, 10 Medi 2018** am **6:45p.m.**

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Ian Lewney (Cadeirydd), Stephen Beach, Gavin Harris, Ken Hawkins, Robert Owen-Ellis, John Wynne Hughes, Rosie Hughes a Heather Williams.

20. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd Ifan Wyn.

21. DATGAN BUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw ddatganiad buddiannau.

22. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 9 Gorffennaf 2018 yn gywir.

23. MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

24. PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO

Adroddodd y Clerc y derbyniwyd y penderfyniad cynllunio a ganlyn gan Gyngor Sir Ddinbych:
02/2018/0617 – Gwesty Castell Rhuthun, Stryd y Castell, Rhuthun – Torri dwy goeden ffawydden T1 a T2 sy'n ddarostyngedig i Orchymyn Cadw Coed 25 y cyn Gyngor Sir Ddinbych (1963) – Caniatawyd
02/2018/0576 – 25 Stryd y Ffynnon, Rhuthun – Manylion ardaloedd gardd allanol ac eisteddle a gyflwynwyd yn unol ag amod rhif 4 caniatâd cynllunio 02/2017/0775/PF – Cymeradwywyd
02/2018/0558 – 7 Stryd y Ffynnon (siop elusen Sue Ryder), Rhuthun – Arddangos un arwydd ffasgia ac un arwydd crog (caniatâd Adeilad Rhestredig) – Caniatawyd
02/2018/0497 – Blazers Fuels, Lôn Cae Brics, Rhuthun – Amrywio amod rhif 2 caniatâd cynllunio 02/2015/1095 i ganiatáu diwygiadau i'r cynlluniau a'r dogfennau – Caniatawyd
02/2018/0654 – Mynwent Sant Pedr, Stryd y Prior, Rhuthun – Torri un goeden geirios yn Ardal Gadwraeth Rhuthun – Dim gwrthwynebiad
02/2017/1190 – Crafnant, Ffordd Llanfair, Rhuthun – Adeiladu annedd newydd a gwaith cysylltiedig – Caniatawyd
02/2018/0633 – Ruthin School, Ffordd yr Wyddgrug, Rhuthun – Amrywio amod rhif 2 caniatâd cynllunio 02/2016/0492 i ganiatáu gosod un uned ystafell ddosbarth dros dro am ddwy flynedd ychwanegol – Caniatawyd
02/2018/0480 – Ruthin Precast Concrete Ltd, Caeau'r Chwarel, Rhewl, Rhuthun – Adeiladu estyniad i adeilad diwydiannol i ddarparu cyfleuster cywasgu a sychu – Caniatawyd.

25. CEISIADAU CYNLLUNIO

Ystyriodd y Pwyllgor y cais a ganlyn a gyflwynwyd am sylwadau gan Gyngor Sir Ddinbych.
PENDERFYNWYD: *nad oedd unrhyw wrthwynebiad i'r cais cynllunio a ganlyn, mewn egwyddor. Cytunodd y Cynghorwyr Gavin Harris a Heather Williams i ymweld â'r safle i weld y pryderon ynghylch lefelau'r safle a godwyd gan wrthwynebydd.*

02/2018/0763 – Tir yn (rhan o ardd) The Nooke, Bryn Goodman, Rhuthun
Dymchwel garej, adeiladu un annedd ar wahân, addasiadau i'r dreif sy'n bodoli eisoes a gwaith cysylltiedig.

26. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD*: mai dyddiad y cyfarfod nesaf fydd nos Lun, 8 Hydref 2018 am 6:45pm.*